Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebaen, Caerdydd, CF5 3SG
Rhif ffôn: 029 2056 4585
Rhif ffôn symudol: 07985 312153

Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebane, Cardiff, CF5 3SG
Phone: 029 2056 4585
Mobile phone no: 07985 312153

10.11.23

Annwyl Riant

**RÔL WAG – RHIANT-LYWODRAETHWR – Ysgol Coed Y Gof**

Ar hyn o bryd mae dau rôl wag ar gyfer rhiant-lywodraethwr ar y Corff Llywodraethu. Diben y llythyr hwn yw eich gwahodd i ystyried gwasanaethu fel rhiant-lywodraethwr ac esbonio rôl y corff llywodraethu.

**Cyfrifoldebau craidd y Corff Llywodraethu:**

- **Safonau** – sicrhau dull strategol a systematig o sicrhau cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb ac ymddygiad o safon uchel, gan gynnwys adolygu data perfformiad a gyhoeddir yn drwyadl;
- **Targedau** – gweithredu fel "cyfaill beirniadol" yn gosod targedau i fesur cynnydd yn eu herbyn o ran cyrhaeddiad a chanlyniadau disgyblion;
- **Cwricwlwm** – sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni;
- **Pennu nodau, polisïau a blaenoriaethau'r ysgol** – cyfrannu at y Cynllun Gwella Ysgol, Hunanwerthusiad yr Ysgol a'r gwaith o adnewyddu a chymeradwyo polisïau a dogfennau statudol;
- **Cyllid** – pennu a monitro cyllideb yr ysgol
- **Staffio** – pennu nifer y staff a chyfrannu at yr holl brosesau staffio gan gynnwys talu, penodi staff, rheoli perfformiad, gwahardd, disgyblu a diswyddo, cwynion;
- **Rhoi gwybodaeth i rieni** – Adroddiad Blynyddol i Rieni, Prosbectws yr Ysgol a chyfarfodydd y mae rhieni'n gofyn amdanynt;
- **Paratoi ar gyfer arolwg a gwaith dilynol** – gan gynnwys llunio cynllun gweithredu a monitro cynnydd ar ôl Arolwg Estyn;
- **Lles a diogelwch dysgwyr gan gynnwys hyrwyddo Bwyta'n Iach;**
- **Ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, a lle i gael cyngor;**
- **Gwerthuso perfformiad y Corff Llywodraethu ei hun yn ôl yr angen.**

**Pwy yw'r Rhiant-lywodraethwyr**

Mae rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hethol i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion. Fodd bynnag, nid yw rhiant-lywodraethwyr o reidrwydd yn cynrychioli rhieni. Maent yn aelodau o gorff corfforaethol – y Corff Llywodraethu – ac mae ganddynt yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â llywodraethwyr eraill. Oni bai y cânt eu cyfarwyddo'n benodol gan y corff llywodraethu, nid oes ganddynt bwerau unigol i wneud penderfyniadau. Mae gan riant-lywodraethwyr yr hawl i arfer yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â llywodraethwyr eraill, ac mae ganddynt yr un hawliau â llywodraethwyr eraill. Mae rhiant-lywodraethwyr yn

Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebaen, Caerdydd, CF5 3SG
Rhif ffôn: 029 2056 4585
Rhif ffôn symudol: 07985 312153

Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebane, Cardiff, CF5 3SG
Phone: 029 2056 4585
Mobile phone no: 07985 312153

gategori unigryw o lywodraethwr ac, fel cynrychiolwyr etholedig, maent mewn sefyllfa dda i ddeall anghenion a safbwyntiau rhieni.

Caiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol i wasanaethu yn eu rolau am 4 blynedd.

**Pa gymwysterau sydd eu hangen ar Rhiant-lywodraethwyr?**

Nid oes angen unrhyw gymwysterau arbennig i fod yn llywodraethwr. Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am eu rôl gan yr Awdurdod Lleol yn ogystal â'r cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi.

Rhaid i bob llywodraethwr newydd gwblhau rhaglen hyfforddiant sefydlu orfodol. Rhaid i lywodraethwyr newydd a'r rheini sy'n cychwyn eu hail dymor yn y rôl hefyd gwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddata. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno manylion am hyn.

**Beth sydd angen i mi ei wneud nesaf?**

Os hoffech fod yn rhiant-lywodraethwr mae angen i chi lenwi'r ffurflen enwebu sydd wedi'i hatodi i'r llythyr hwn a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn **dydd Llun 19eg Ebrill.** Ni chaiff unrhyw enwebiadau a geir ar ôl y dyddiad hwn eu derbyn.

Os ceir mwy o enwebiadau na nifer y rolau gwag sydd ar gael, cynhelir etholiad a benderfynir drwy fwyafrif syml. Byddai amserlen unrhyw etholiad fel a ganlyn:-

**Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: Dydd Gwener 24ain o Dachwedd**
**Cyhoeddi papurau pleidleisio (os oes angen etholiad): Dydd Llun $1^{af}$ o Ragfyr**
**Dychwelyd papurau pleidleisio: Dydd Gwener 15fed o Ragfyr**

Rwy'n gobeithio y gwnewch ystyried bod yn Rhiant-lywodraethwr. Byddai'r corff llywodraethu yn croesawu eich cyfraniad at ei waith hanfodol i hyrwyddo cyrhaeddiad, lles a datblygiad holl ddisgyblion yr ysgol.

Rhowch ystyriaeth ddwys i'r peth.

Yn gywir

C. Prytherch

**Y Pennaeth**
**Ysgol Coed Y Gof**

www.coedygof.co.uk Pennaeth/Headteacher: Mrs C Prytherch ysgolcoedygof@cardiff.gov.uk